Pecyn Dogfen Cyhoeddus


At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 7 Gorffennaf 2021

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MAWRTH, 13 GORFFENNAF 2021** am **10.00 am** yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn bresennol y cyngor.

**4 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn bresennol y cyngor.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**6 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2021 (copi'n amgaeedig).

**7 TAITH IAITH CYMRAEG YN Y CYNGOR**

Derbyn cyflwyniad gan y Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu am eu taith Gymraeg yng Nghyngor Sir Dinbych.

**8 CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG** (Tudalennau 13 - 16)

Derbyn adroddiad gan y Prif Reolwr - Moderneiddio Addysg, i ddiweddaru'r pwyllgor ar y Cynllun Strategol Addysg (copi ynghlwm).

**9 STRATEGAETH IAITH GYMRAEG** (Tudalennau 17 - 20)

Derbyn diweddariad ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r Strategaeth Iaith Gymraeg (copi ynghlwm).

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 21 - 22)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi ynghlwm)

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Ellie Chard
Ann Davies
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Arwel Roberts
Anton Sampson
Graham Timms
Joe Welch
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu*** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br><br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 16 Mawrth 2021 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts, Graham Timms (Cadeirydd), Joe Welch ac Emrys Wynne (Is Gadeirydd).

**Arsylwr –** y Cynghorydd Meirick Davies

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS); Swyddog yr Iaith Gymraeg (MC) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a SLW)

### CROESO/PWYNTIAU I'W NODI

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych, a oedd wedi dod i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar y Fenter.

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd wahoddiad i arsylwi.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Meirick Davies, Arwel Roberts ac Emrys Wynne gysylltiad personol ag eitem 5 oherwydd eu bod yn ymddiriedolwyr Menter Iaith Sir Ddinbych.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2020.

**Cywirdeb –** Tynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne sylw at anghysondeb yn y cofnodion Cymraeg gan eu bod yn nodi dyddiad o 12 Tachwedd 2019 yn hytrach na 10 Tachwedd 2020.

**Materion yn Codi -** Dywedodd y Cynghorydd Meirick Davies nad oedd y Cadeirydd a'r Is gadeirydd wedi eu henwi ar y rhaglen yn unol â'r drefn arferol.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar y newidiadau uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.*

**5 MENTER IAITH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych a gafodd ei gwahodd i'r cyfarfod i roi trosolwg o waith Menter Iaith. Roedd dolen at Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Sir Ddinbych 2019 - 2020 wedi'i dosbarthu gyda rhaglen y cyfarfod ac mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o weithgareddau yn ystod 2019/20.

Cyflwynodd y Prif Swyddog gyflwyniad PowerPoint ar Fenter Iaith Sir Ddinbych - un o 22 Menter Iaith sydd ar waith yng Nghymru i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau. Mae'r sefydliad yn siop un stop ar gyfer gwybodaeth am yr iaith, eisteddfodau ac ati, gofal plant, sesiynau iaith a mwy i helpu pobl i fyw, dysgu a mwynhau eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol:

- strwythur Menter Iaith (cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr a staff), sy'n elusen gofrestredig sydd wedi ennill Marc Ansawdd Elusen Ddibynadwy Cyngor Cenedlaethol y Mudiadau Gwirfoddol.
- y ffaith bod Menter Iaith mewn sefyllfa strategol i helpu i ddarparu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a sut y caiff ei ariannu.
- y prif dargedau a'r themâu strategol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ynghyd â strategaethau allweddol eraill yn cynnwys Strategaeth y Gymraeg Sir Ddinbych a Chynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg a gwaith gyda phartneriaid a sectorau eraill.
- darpariaeth o fewn themâu iaith Gymraeg strategol Sir Ddinbych (1) Cynllunio Strategol yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych, (2) Plant a Phobl Ifanc, (3) y Gymuned, a (4) Busnes a'r Economi, a manylion y cyfoeth o weithgareddau/digwyddiadau sydd wedi'u cynnal i'r perwyl hwn a ddangoswyd mewn ffotograffau, yn y cyfryngau ac ati.
- y ffynonellau o gyllid sydd ar gael i Menter Iaith fel elusen gofrestredig yn cynnwys grantiau gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych ynghyd â chefnogaeth o ffynonellau eraill ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau.
- cafwyd dolenni at dudalennau cyfryngau cymdeithasol Menter Iaith ynghyd â manylion cyswllt y sefydliad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog am ei chyflwyniad diddorol a llawn gwybodaeth. Cytunwyd y dylid anfon y cyflwyniad at yr aelodau ar ôl y cyfarfod.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i wneud sylwadau a thrafod gwahanol agweddau ar waith Menter Iaith gyda'r Prif Swyddog. Roedd prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol -

- Gofynnodd y Cynghorydd Ann Davies a oes digon yn cael ei wneud i gefnogi ac annog myfyrwyr o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg sy'n mynd i Goleg Cambria i ddal ati i siarad Cymraeg. Eglurodd y Prif Swyddog bod gan y Coleg ei swyddogion ei hun sy'n gyfrifol am sicrhau argaeledd y Gymraeg yn unol â'i safonau iaith Gymraeg, fodd bynnag pe bai gan yr aelodau unrhyw faterion yr hoffent eu codi yn y cyswllt hwn, gallai Menter Iaith Sir Ddinbych eu cyfeirio'n ôl at Goleg Cambria. Fel partner, mae Menter Iaith yn tueddu i weithio gyda Choleg Cambria yng nghyd-destun dosbarthiadau Cymraeg ar gyfer oedolion, ond o dro i dro hefyd cynhelir digwyddiadau neu weithgareddau ar y cyd. Er nad yw Menter Iaith yn gyfrifol am addysg mae'n gweithio gyda'r sector addysg fel rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg er mwyn cynnal trosolwg. Mewn ymateb i gwestiwn arall am y bobl ifanc yn y Rhyl sy'n manteisio ar weithgareddau Menter Iaith, dywedodd y Prif Swyddog bod o leiaf 90% o ddisgyblion yr ysgolion Cymraeg yn dod o gartrefi di-Gymraeg a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu'r iaith drwy'r ysgol. Mae Menter Iaith yn gweithio gyda rhai ysgolion ond ni all gynnig rhagor o brosiectau heb gyllid ychwanegol i gyflogi mwy o staff. Mae rhieni'n aml yn cysylltu â Menter Iaith am gefnogaeth a chyngor ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at lwyddiant Menter Iaith mewn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn arbennig wrth ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc fwynhau'r iaith y tu allan i sefydliadau addysgol, a llongyfarchodd hwy am hyn. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd sicrhau bod cyllid digonol ar gael er mwyn parhau â'r gwaith hwn yn y dyfodol ac anogodd yr awdurdod lleol i ddarparu'r gefnogaeth orau bosibl. Mae hi hefyd yn bwysig ystyried gogledd a de'r sir ac er bod canran siaradwyr Cymraeg yn y Rhyl yn isel, mae'r niferoedd yn uchel iawn.
- Diolchodd y Cynghorydd Meirick Davies hefyd i'r staff am yr holl waith y maent yn ei wneud ac am y ddarpariaeth ymarferol sydd yn ei lle, ac roedd yn awyddus i glywed mwy am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda Choleg Cambria. Cyfeiriodd y Prif Swyddog eto at gynnwys ei chyflwyniad ac at waith Menter Iaith gyda swyddogion sy'n gyfrifol am y Gymraeg yng Ngholeg Cambria. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydnabod a deall manteision defnyddio'r Gymraeg a bod yn ddwyieithog wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer y gweithle, yn arbennig mewn sectorau megis gofal plant, ac mae'r manteision hyn yn cael eu marchnata'n gyson i weithwyr a busnesau.
- Roedd gan y Cadeirydd ddiddordeb mewn clywed am y cysylltiadau busnes a phwysleisiodd bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg mewn siopau a chaffis ac ati a holodd a ellid gwneud mwy i annog hyn. Roedd y Prif Swyddog yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi busnesau a chytunodd bod angen gweld a chlywed y Gymraeg ar y stryd ac mewn mannau fel siopau, llyfrgelloedd ac ati yn ddyddiol er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu hyder pobl i ddefnyddio'r iaith. O ran y stryd fawr mae Menter Iaith yn gweithio yn wyth o drefi mwyaf Sir Ddinbych ond oherwydd bod y tîm mor fach dim ond canran fach o fusnesau y mae modd eu cyrraedd. Soniodd am y defnydd o arwyddion dwyieithog a'r gwasanaeth sydd ar gael i gyfieithu 500 gair y mis am ddim ond dywedodd bod angen ymgyrchoedd i hyrwyddo hyn. Awgrymodd y gallai

Swyddogion Datblygu Economaidd y Cyngor ddechrau sgwrs gyda busnesau yn gofyn os ydyn nhw wedi meddwl am fanteision dwyieithrwydd, gan dynnu sylw at y ffaith nad oes anfantais i unrhyw fusnes o weithredu'n ddwyieithog nac ychwaith gostau ychwanegol os gwneir cynlluniau ar gyfer hynny o'r cychwyn cyntaf. Gallai mentrau eraill gynnwys amod ar y defnydd o'r Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau; hysbysebu swyddi yn Gymraeg yn unig a swyddi Cymraeg yn hanfodol dynodedig ar gyfer gwasanaethau rheng flaen; y posibilrwydd o hyfforddiant ar gyfer y rhai hynny nad oes ganddynt ddigon o hyder i ddefnyddio eu Cymraeg a'r posibilrwydd o gyrsiau wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer grwpiau busnes.

Wrth gloi'r drafodaeth diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog am fynychu'r cyfarfod ac am ei chyflwyniad.

***PENDERFYNWYD** y dylid dosbarthu'r cyflwyniad ar waith Menter Iaith i'r Aelodau.*

Ar y pwynt hwn (11.07 am) cymerodd y pwyllgor egwyl deng munud.

**6 DATBLYGIADAU'R GYMRAEG YN RHANBARTHOL A CHENEDLAETHOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts eitem ar y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud ar y gweithgareddau cysylltiedig â'r Gymraeg yr oedd y pwyllgor wedi'u trafod yn y cyfarfod blaenorol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mai'r nod yw ymwreiddio'r gweithgareddau hyn fel busnes craidd y cyngor gyda'r nod o sicrhau gwelliannau parhaus.

Ymhelaethodd Swyddog yr Iaith Gymraeg ar feysydd penodol o'r adroddiad a oedd yn cynnwys datblygiadau mewn sawl maes allweddol a nododd hefyd effaith Covid-19 ar gynnydd gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:

- **'Mwy Na Geiriau' –** cafwyd crynodeb ar y cynnydd a wnaed gyda'r camau canlynol:

  - ♦ parhau i roi gwybod i staff mewnol a gwasanaethau a gomisiynir am y 'Cynnig Gweithredol' a hyrwyddo'r swigen oren fel arwydd rhwydd o ddewis iaith ar waith papur ac o'r cynnig o ddewis iaith gan ddarparwyr gofal.
  - ♦ cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan y gweithlu gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych a hyrwyddo'r defnydd o adnoddau digidol a'r cyrsiau Cymraeg ar-lein sydd wedi'u datblygu gan 'Cymraeg Gwaith'.
  - ♦ dangos ymrwymiad i ymwreiddio'r Gymraeg ym mhob un o feysydd gwasanaeth y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol / Gwasanaethau Plant.
  - ♦ gwaith ychwanegol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

- **Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg –** cwblhawyd y gwaith o adeiladu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd a'r Ganolfan Iaith Gymraeg yn Llanelwy.
  Agorwyd Cylch Meithrin ar dir yr ysgol newydd yn Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Dewi Sant. Nodwyd hefyd effaith Covid-19 ar weithgareddau cyfoethogi'r cwricwlwm ac Eisteddfod yr Urdd. Roedd patrwm o gynnydd mewn niferoedd mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

- **Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg -** cafwyd manylion yr hunanasesiad o sgiliau iaith Gymraeg staff, yn cynnwys dadansoddiad o'r canlyniadau fesul gwasanaeth sy'n amrywio o Lefel 0 (dim sgiliau) i Lefel 5.
  Ni fydd yr arolwg yn cael ei gynnal eleni gan na ddisgwylir y byddai'r canlyniad yn wahanol iawn, er ei bod yn bosibl y byddai gostyngiad yn y lefelau oherwydd bod staff yn gweithio gartref o ganlyniad i Covid-19 ac o'r herwydd ddim yn clywed y Gymraeg nac yn siarad Cymraeg yn y swyddfa.

- **Diweddariad ar y Bartneriaeth Iaith Gymraeg – Partner Iaith –** mae Covid-19 yn golygu bod mapio gweithgaredd ar draws y sir wedi'i oedi ar hyn o bryd. Gwahoddwyd swyddfa'r Comisiynydd Iaith i drafod sut y mae Covid-19 wedi effeithio ar yr Iaith Gymraeg yn genedlaethol yn ogystal ag unrhyw arfer da sydd wedi dod i'r amlwg. Yn ogystal trafodwyd yr ymgynghoriad ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth iaith Gymraeg gyda'r Swyddog Moderneiddio Addysg. Mae gwaith ar gydweithio ar ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol ar ddathliadau cenedlaethol ar y gweill.

I gloi dywedodd Swyddog yr Iaith Gymraeg er bod Covid-19 wedi amharu ar gynlluniau mae digonedd o waith da ar y gweill o hyd, yn ogystal â ffyrdd mwy arloesol y sicrhau canlyniadau.

Tynnodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts sylw at y gwaith caled parhaus sy'n digwydd i wella sefyllfa'r Gymraeg dan amgylchiadau anodd iawn a diolchodd i'r Swyddog Iaith a'i thîm am eu gwaith caled. Er y casglwyd tystiolaeth dros y tair blynedd ddiwethaf bod cynnydd wedi bod yn faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad yn y sir, mae gwelliannau i'w gwneud o hyd ac mae gan bawb ran i'w chwarae yn hyn o beth. Cyfeiriodd hefyd at yr hinsawdd ariannol anodd sy'n cyfyngu ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer mentrau eraill, megis rhoi rhagor o gefnogaeth i fusnesau. Yn olaf cyfeiriodd at yr heriau i ddisgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd o gartrefi di-Gymraeg wrth ddysgu o bell.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- effaith y pandemig ar blant o gartrefi di-Gymraeg sy'n cael eu haddysg mewn ysgolion Cymraeg. Roedd yr aelodau'n gobeithio'n arw nad yw hyn wedi arwain at ostyngiad mewn niferoedd na'r niferoedd sy'n pontio o CA2 i CA3. Cadarnhaodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts bod rhai disgyblion wedi gadael ysgolion cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i hyn ond cymerwyd camau i gefnogi a mentora rhieni mewn ysgolion penodol ac mewn rhai achosion cafodd mesurau eu teilwra i ddiwallu anghenion disgyblion y daeth yn amlwg eu bod yn cael trafferthion gyda'r iaith yn ystod y cyfnod clo. Roedd disgyblion ysgolion cynradd bellach wedi dychwelyd i'r ysgol ac yn siarad Cymraeg unwaith eto felly nid oedd hyn yn gymaint o broblem. Cytunwyd bod magu hyder y plant hyn a'u cael i siarad Cymraeg yn amgylchedd yr ysgol unwaith eto yn flaenoriaeth ac y byddai'n biti mawr pe bai effeithiau'r cyfnod clo yn arwain at ostyngiad yn niferoedd plant sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at yr asesiad o sgiliau Cymraeg staff a'r lefelau 0 – 1 ac roedd yn awyddus i osod targed i ddileu lefel 0 ar ôl y pandemig a darparu mwy o hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi staff i symud yn gyflymach drwy'r lefelau. Dywedodd bod Lefel 3 yn drobwynt allweddol i bobl sy'n dysgu

Cymraeg oherwydd eu bod wedi bod drwy'r camau mwyaf heriol erbyn cyrraedd y lefel hwn ac roedd yn ymwybodol o'r cynnydd da sy'n cael ei wneud gan nifer cynyddol os staff. Tynnodd aelodau eraill sylw at yr ymdrechion cadarnhaol y mae staff yn eu gwneud i siarad ac ymateb yn Gymraeg ar wahanol lefelau a phwysleisiwyd pa mor bwysig yw hi i gynghorwyr arwain y ffordd, yn arbennig yng nghyfarfodydd y Cyngor.

- pwysleisiwyd eto bwysigrwydd rhoi cefnogaeth i fusnesau lleol fel y nodwyd eisoes a chrybwyllwyd rôl yr Adran Gynllunio mewn codi'r mater o arwyddion dwyieithog gyda busnesau newydd a hefyd annog y defnydd o'r Gymraeg wrth hysbysebu.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod yn falch o'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma ond bod yn rhaid hefyd parhau i herio er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus, a diolchodd i Swyddog yr Iaith Gymraeg am yr adroddiad cynhwysfawr.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Sir Ddinbych*

## 7 GWEITHGAREDDAU I HYRWYDDO'R GYMRAEG

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts adroddiad (wedi'i ddosbarthu eisoes) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar weithgaredd hyrwyddo'r Gymraeg ers y cyfarfod diwethaf ac amlinellodd y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cafwyd cyflwyniad gan Swyddog yr Iaith Gymraeg yn rhoi manylion am nifer o'r gweithgareddau hyn, yn cynnwys:

- **Eisteddfod Staff -** cynhaliodd y Cyngor ei drydedd Eisteddfod rhwng 15 Chwefror ac 1 Mawrth fel rhan o'i
ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd yr eisteddfod yn ddigidol gan ddefnyddio safle Facebook preifat staff y Cyngor i gystadlu ac i bleidleisio. Roedd yr Eisteddfod ddigidol yn llwyddiannus dros ben gyda 163 wedi cofrestru ar gyfer cystadlaethau a 700 bleidleisiau wedi'u bwrw.
- **Dydd Gŵyl Dewi –** yr Eisteddfod Staff oedd y prif ddigwyddiad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ond yn ogystal rhannwyd gwybodaeth yn y cyfryngau digidol am hanes Dewi Sant; rhestr o eiriau Cymraeg defnyddiol a'r dull ffonetig o'u hynganu er mwyn helpu dysgwyr Cymraeg, a ffeithiau diddorol am y genhinen a'r Genhinen Bedr.
- **Paned a Sgwrs** – oherwydd bod y rhan fwyaf o staff bellach yn gweithio gartref cynhaliwyd y sesiynau'n ddigidol ond ar ôl dechrau da roedd y niferoedd wedi gostwng dros y misoedd diwethaf. Y rheswm dros hyn oedd yr angen am seibiant oddi wrth y sgrin dros amser cinio pan gynhaliwyd y sesiynau. Mae amser y sesiwn bellach wedi'i newid i 9.00 a.m. ac mae'r niferoedd wedi codi unwaith eto a chafwyd adborth cadarnhaol gan staff.
- **Dydd Santes Dwynwen –** lluniwyd cwis am hanes Santes Dwynwen fel rhan o'r dathliadau eleni a chafodd hwn ei rannu'n fewnol ac yn allanol yn y cyfryngau cymdeithasol a chymerodd dros 30 o bobl ran. Crëwyd dogfen o eiriau Cymraeg perthnasol a sut i'w hynganu ar gyfer dysgwyr Cymraeg, ynghyd â chwilair.
- **Dydd Miwsig Cymru -** crëwyd rhestr o ganeuon Cymraeg i'w rhannu gyda staff ac i hyrwyddo cân newydd - Byw i'r Awr, ar gyfer yr ymgyrch Nerth dy Ben, i

atgoffa’n gilydd o'n cryfderau a'n dewrder. Y nod yw amlygu’r effaith gadarnhaol y mae cerddoriaeth yn ei gael ar iechyd meddwl. Roedd y rhan fwyaf o’r artistiaid yn y fideo yn gyn-ddisgyblion Ysgol Glan Clwyd.

- **Hyrwyddo Safonau’r Gymraeg –** crëwyd dogfen/rhestr wirio i hyrwyddo a rhannu’r safonau iaith yn Sir Dinbych Heddiw, LINC, Visiontime a thudalen Facebook staff y cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â’r safonau.
- **Geirfa ar gyfer cyfarfodydd –** er mwyn annog y defnydd o’r Gymraeg mewn cyfarfodydd, yn cynnwys eu hagor a’u cau yn Gymraeg, crëwyd geirfa ddefnyddiol i'w rhannu ar Facebook ynghyd â recordiadau sain er mwyn i bobl allu clywed sut i’w hynganu.
- **Diwrnod Crempog -** crëwyd rhestr o eiriau a thermau defnyddiol ar gyfer staff
- **Y Camau Nesaf:**
  **Amserlen arfaethedig o weithgareddau ar gyfer 2021 -** cyflwynwyd tabl o weithgareddau arfaethedig ar gyfer bob mis drwy gydol 2021 i’w ystyried a’i drafod ymhellach yn y cyfarfod.

Ar ddiwedd y cyflwyniad talodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau deyrnged i’r gwaith rhagorol y mae’r Swyddog Iaith wedi’i wneud dan amgylchiadau hynod o anodd i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau difyr ar gyfer staff er mwyn hyrwyddo’r Gymraeg. Ategwyd ei sylwadau gan y pwyllgor cyfan a diolchwyd i'r Swyddog Iaith am ei holl waith caled.

Trafododd yr Aelodau sawl mater yn deillio o'r adroddiad mewn mwy o fanylder -

- Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y dylid cynhyrchu datganiad ar y gwaith rhagorol a wnaed i hyrwyddo’r Gymraeg i’w gyhoeddi mewn papurau papurau bro ac ati. Cytunodd y Swyddog Iaith â hyn a dywedodd hefyd y gellid hyrwyddo’r llwyddiannau drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.
- Atebodd y Swyddog Iaith gwestiynau am sesiynau cyflwyno staff newydd gan gadarnhau bod cyfeiriad yn cael ei wneud at y safonau iaith fel rhan o’r broses honno a bod yn rhaid i staff gwblhau e-fodiwl ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sydd hefyd yn cynnwys adran ar y Safonau Iaith a Chomisiynydd y Gymraeg a Strategaeth y Gymraeg, felly mae'r holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei rhannu.
- Gwnaeth y Cadeirydd gais bod dolen at yr eirfa Gymraeg ar gyfer cyfarfodydd yn cael ei rhannu gyda chadeiryddion pob pwyllgor i annog y defnydd o'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y cyngor.
- Gofynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i adolygu’r sefyllfa yn Sir Ddinbych o ran yr enwau Cymraeg a roddir i lefydd ac anheddau topograffig er mwyn sicrhau y cedwir yr elfen Gymreig.
  Cytunwyd y dylai’r Cynghorydd Wynne lenwi ffurflen cynnig testun ar y pwnc hwn i’w gyflwyno i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion craffu er mwyn pennu sut i symud y mater hwn yn ei flaen.

***PENDERFYNWYD*** *nodi’r hyn a wnaed yn ystod 2020 a bod y cynnig ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo yn 2021 yn cael ei gymeradwyo.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Pwyllgor i’w ystyried, a thrafododd yr aelodau’r materion canlynol:

- cynnydd gyda Strategaeth y Gymraeg 2022 – 27 a buddsoddiad posibl yn y cyswllt hwnnw a chadarnhawyd mai'r bwriad yw cyflwyno dogfen ddrafft i'r pwyllgor er ystyriaeth cyn ei chyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror/Mawrth 2022.
- cafwyd cadarnhad bod diweddariad ar Eisteddfod yr Urdd wedi’i gytuno fel eitem ar gyfer rhaglen mis Tachwedd ond y bydd yr eitem yn cael ei dwyn ymlaen i’w hystyried yng nghyfarfod mis Gorffennaf os bydd unrhyw ddatblygiadau cyn hynny; cytunwyd hefyd bod diweddariad ar yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei gyflwyno mewn yn y dyfodol ar yr adeg briodol wrth i fwy o wybodaeth ddod i law.
- yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts cytunwyd y bydd aelodau o staff yn cael gwahoddiad i gyfarfod yn y dyfodol i roi eu profiadau personol i’r pwyllgor ynghylch y gefnogaeth y maent wedi’i chael gan y Cyngor ar eu siwrnai i ddysgu  Cymraeg.

***PENDERFYNWYD,*** *yn ddibynnol ar yr uchod, derbyn a nodi’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol**.***

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**Adroddiad i'r** Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg

**Dyddiad y cyfarfod:** 13 Gorffennaf 2021

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts

**Awdur yr Adroddiad:** Geraint Davies

**Teitl** Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg 2022-2032

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd sy'n amlinellu sut fydd y Gymraeg yn cael ei datblygu yn ein hysgolion dros y 10 mlynedd nesaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi'r gofyniad i greu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd a'r targed ar gyfer Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae'n ofyniad statudol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gael Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd y cynllun newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn weithredol am 10 mlynedd tan 2032.

4.2. Bydd pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn dilyn yr un canllawiau ac yn cael eu trefnu'n seiliedig ar saith canlyniad. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu siwrnai addysg y dysgwr ac yn gyson â blaenoriaethau Cymraeg 2050 ac Addysg yng Nghymru. Ein cenhadaeth Cenedlaethol.

Canlyniad 1: Rhagor o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 2: Rhagor o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 3: Rhagor o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Canlyniad 4: Rhagor o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Canlyniad 5: Rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Canlyniad 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Canlyniad 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

4.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i bob Awdurdod Lleol gynyddu nifer y disgyblion blwyddyn 1 sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Y targed is ar gyfer Sir Ddinbych yw 35% a'r targed uwch yw 39%. Yn 2020, roedd 28% o ddisgyblion blwyddyn 1 yn Sir Ddinbych yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.4. Bydd y cynllun newydd yn amlinellu sut fydd Sir Ddinbych yn bodloni'r targed hwn ac yn cefnogi'r saith canlyniad. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y cynllun newydd yn hydref 2021 a bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r cynllun newydd yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes dyraniad cyllid arbennig wedi'i nodi ar gyfer darparu'r cynllun ar hyn o bryd. Bydd y ffrydiau cyllido presennol yn cael eu defnyddio gan y Cyngor a'i bartneriaid i ddarparu'r amcanion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae gan y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd y potensial i gael effaith gadarnhaol ar Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, cymunedau cydlynol, Sir Ddinbych fwy cyfartal a Sir Ddinbych fwy ffyniannus.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant a'r iaith Gymraeg.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg sydd ynghlwm â'r cynllun newydd yw diffyg gweithredu gan fudd-ddeiliaid o ran rhoi'r amcanion ar waith. Mae'r holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at ddatblygiad y Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i gydymffurfio â'r darpariaethau mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('y Ddeddf') a'r rheoliadau a wnaed o dan y ddeddf.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 13 Gorffennaf 2021 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins |
| **Awdur yr Adroddiad** | Manon Celyn, Swyddog Iaith Gymraeg |
| **Teitl** | Strategaeth Iaith Gymraeg |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am ddatblygu Strategaeth Iaith Gymraeg newydd ar gyfer Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r strategaeth newydd

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I gymeradwyo'r dull a'r amserlen sy'n gysylltiedig â'r strategaeth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i bennu safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl awdurdodau lleol fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg, fel rhan o'u hymateb i'r Safonau.

4.2 Mae'r strategaeth bresennol, a fabwysiadwyd gan Gabinet Sir Ddinbych ym Mawrth 2017, yn amlinellu'r dull tuag at hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei ddefnydd o fewn y sir, ac mae disgwyl i'r Cyngor adolygu ei strategaeth bum mlynedd wedi'r dyddiad cyhoeddi. Disgwylir y strategaeth newydd ym Mawrth 2022.

4.3 **Mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg bresennol yn cynnwys Gweledigaeth:**

- Mae Sir Ddinbych yn sir ddwyieithog yn bennaf, gyda diwylliant a threftadaeth gyfoethog. Rydym yn falch iawn o'r ffaith hon ac eisiau i'r balchder hyn gael ei adlewyrchu yn ein rhyngweithiad o ddydd i ddydd gyda chymunedau, preswylwyr ac ein staff.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn ategu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; mae arnom eisiau i bobl allu cael mynediad i wasanaethau drwy eu dewis iaith yn naturiol, ym mhob cam o'u bywydau.

- Mae arnom eisiau gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i'n staff weithio yn y Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Dymunwn weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn Sir Ddinbych.
- Mae gennym uchelgais i fod yn arweinwyr sector yn natblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru.

**4.4 Themâu cyfredol:**

- Mae Thema 1 yn edrych ar y ffordd mae Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i bartneriaid allweddol sy'n rhan o ddarparu'r Gymraeg ar draws y sir a sut allent weithio yn fwy strategol a chynllunio eu gweithgareddau mewn modd mwy cydlynol.

- Mae Thema 2 yn edrych ar gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg yn ystod eu bywyd yn yr ysgol a'u hannog i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau yn y dyfodol. Rydym hefyd yn ceisio gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol gan weithio gyda gwasanaethau hamdden ac ieuenctid.

- Mae Thema 3 yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau mewn perthynas â'r Gymraeg, gyda chanolbwynt allweddol ar effaith penderfyniadau polisi. Mae canolbwynt allweddol yn cael ei roi ar faterion cynllunio lleol a'r Fframwaith 'Mwy na Geiriau' er mwyn gwella gwasanaethau dwyieithog mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

- Mae Thema 4 yn edrych ar y ffordd y dylai Sir Ddinbych a'i bartneriaid datblygu economi gydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol y Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod strategaethau mewn lle i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc aros yn y gymuned leol.

- Mae Thema 5 yn edrych ar y ffordd y gall y Cyngor wella'r Gymraeg trwy ddarparu hyfforddiant i staff a gwella ethos ddwyieithog yr awdurdod trwy hyrwyddo'r Gymraeg.

**4.5 Y Camau Nesaf:**

4.5.1 Bydd y cam ymchwil dechreuol yn dechrau'n fuan lle bydd y Cyngor yn edrych ar esiamplau o arferion gorau, y wybodaeth ddemograffig sydd ar gael ac yn edrych ar lwyddiannau'r strategaeth flaenorol.

4.5.2 Bydd trafodaethau gydag Aelodau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y meysydd blaenoriaeth presennol ac os oes angen diwygio neu wella'r rhain yn y strategaeth newydd.

4.5.3 Yn dilyn cyfnod o ddrafftio'r strategaeth, bydd y Cyngor yn dechrau ar gyfnod o ymgysylltiad ac ymgynghoriad mewnol ac allanol cyn drafftio'r adroddiad terfynol, yn barod ar gyfer trafodaeth yn y Cabinet.

**4.6 Amserlen Arfaethedig**

| CAM GWEITHREDU | ERBYN PRYD |
|---|---|
| Ymchwil dechreuol | Mawrth 2021 |
| Trafodaethau / gweithdai gyda Phwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y themâu allweddol – ydynt yn parhau i fod yn addas i'r diben? | Mehefin 2021 |
| Trafodaeth gydag asiantaethau partner | Gorffennaf 2021 |
| Drafftio'r adroddiad | Medi 2021 |
| Trafodaeth gyda'r Pwyllgor Llywio Iaith Gymraeg | Tachwedd 2021 |
| Ymgynghoriad ar y Strategaeth Iaith Gymraeg | Rhagfyr 2021 / Ionawr 2022 |
| Penderfyniad y Cabinet ar Strategaeth Iaith Gymraeg | Mawrth 2022 |
| Gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg Newydd | Mawrth 2022 ymlaen |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes cyllid ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Bydd unrhyw gostau yn cael ei ysgwyddo gan bartneriaid presennol a thrwy ewyllys da aelodau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o brif elfennau'r Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw:
"Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy Safonau'r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad gydag Aelod Cabinet Arweiniol y Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y brif risg yw'r dirywiad posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir (yn ôl mesuriad y cyfrifiad cenedlaethol). Mae holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at ddatblygiad y Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG**

| **Cyfarfod** | **Eitem (Disgrifiad / Teitl)** | | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **9 Tachwedd 2021** | 1 | Cyflwyniad gan Bartner | Derbyn cyflwyniad ar waith Mudiad Meithrin | Carys Gwyn |
| | 2 | Mwy na Geiriau/ More Than Words | Diweddariad ar Mwy na Geiriau/ More Than Words | Margaret Watkins |
| | 3 | Eisteddfod yr <u>Urdd – Diweddariad</u> | Diweddariad ar Eisteddfod yr Urdd | Manon Celyn Roberts |
| | 4 | Diweddariad ar yr Eisteddfod Genedlaethol 2020 | Update on the National Eisteddfod 2020 | Manon Celyn Roberts |
| | 5 | Comisiynydd Cymraeg | Diweddaru'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r Pwyllgor – meysydd i'w gwella a meysydd i'w hyrwyddo yn ystod 2021. | Manon Celyn Roberts |

***<u>Note for Officers – Report Deadlines</u>***

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| *Gorffennaf* | ***29 Mehefin*** | *Tachwedd* | ***26 Hydref*** | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag